| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw** |
| **DYDDIAD** | **23 Hydref 2017** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheolaethol yr Harbwr** |
| **AWDUR** | **Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion yn ymwneud â rheolaeth, diogelwch a datblygiad yr Harbwr ac i dderbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion yn ymwneud a Harbwr Abermaw.

1.2 Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno diweddariad cryno i sylw'r Pwyllgor ar faterion yr Harbwr am y cyfnod Mawrth 2017 hyd at Hydref 2017 ac i dderbyn adborth gan yr Aelodau ar faterion Diogelwch a materion gweithredol yr harbwr.

1.3 Yn 2014 penderfynwyd gan Gabinet y Cyngor byddai'r Pwyllgorau Harbyrau Aberdyfi, Abermaw a Phwllheli yn cynnwys: -

- Hyd at 4 Aelod Lleol Cyngor Gwynedd
- Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sydd yn dal Portffolio'r Awdurdod Harbwr
- Un Aelod Cyngor Tref/Cyngor Cymuned
- Hyd at saith aelod arall i gynrychioli gwahanol fuddiannau defnyddwyr yr harbwr

Yn ystod yr haf fe fu i'r Swyddog cefnogi aelodau ohebu gyda phob cynrychiolydd mudiadau'r harbyrau a enwir uchod yn atgoffa o'r gofyn fod mudiadau yn enwebu cynrychiolydd am y flwyddyn sydd i ddod gan hefyd anfon copi o'r cyfansoddiad a chofnodion o gyfarfod blynyddol y grwpiau perthnasol. Bydd yn hanfodol bod y wybodaeth wedi ei gyflwyno i'r Cyngor ble yn berthnasol.

Pwyllgor Harbwr Porthmadog yw'r unig Bwyllgor Harbwr statudol gan Gyngor Gwynedd ac mae'r Pwyllgor wedi ei ffurfio yn unol â Rhan 6 (2) (a-j) Gorchymyn Diwygio Harbwr Porthmadog. Mae'r Gorchymyn yn cyfarwyddo bod yna 15 Aelod yn eistedd ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog. Mae rhestr gyflawn o'r grwpiau a mudiadau a fydd yn cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Harbwr i'w gweld yn y Gorchymyn Harbwr.

## 2. Angorfeydd a Chofrestru Cychod Abermaw

2.1 Yn 2017/18 roedd nifer cychod ar angorfeydd yn yr Harbwr fel a ganlyn; -

2.2 86 o gychod ar angorfeydd blynyddol yn 2017. Mae hyn yn cymharu gyda 88 yn 2016. Mae 69% o'r perchenogion yn breswyl yng Ngwynedd gyda 31% o'r perchennogion yn breswyl tu allan i Wynedd. Mae 64% yn gychod pŵer gyda 36% yn gychod Hwylio.

2.3 Ar y cyfan, wrth gymharu holl harbyrau Cyngor Gwynedd gwelwyd cynnydd bychan mewn nifer cwsmeriaid dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys cynnydd yn Hafan Pwllheli. Yr unig eithriad o gysondeb yn y nifer gychod ar angorfeydd oedd yn Noc Fictoria yng Nghaernarfon ble gwelwyd lleihad mewn nifer gychod ar angorfa pontŵn a hyn oherwydd anawsterau angori oherwydd cynnydd yn y llaid a olygai diffyg dyfnder dwr yn y Doc.

2.1 Cofrestrwyd 903 o Gychod Pŵer yng Ngwynedd yn 2017 sydd yn cymharu gydag 1001 a fu wedi cofrestru yn 2016. Roedd 66 cwch wedi cofrestru yn harbwr Abermaw gan gymharu gyda 81 cwch pŵer a fu wedi cofrestru yn 2016.

2.2 Cofrestrwyd 725 Bad Dwr Personol yng Ngwynedd yn 2017. Cymharai hyn gydag 729 a fu wedi cofrestru yn 2016. Cofrestrwyd 66 Bad Dwr Personol yn Abermaw yn 2017. Mae hyn yn cymharu gyda 69 Bad Dwr Personol a gofrestrwyd yn 2016.

2.3 Yn ystod tymor yr haf eleni fe fu tri chwch dorri yn rhydd o'i angorfa. Achoswyd niwed i'r cychod ac fe roedd rhaid cau Pont y Rheilffordd am gyfnod gan fod cwch hwylio gyda hwylbren wedi taro yn erbyn y bont. Cafodd ei rhyddhau drwy gymorth criw'r Bad Achub.

2.4 Er bod y gwyntoedd wedi bod yn gymharol gryf ar adegau ni ddylai hyn gael effaith ar yr angorfeydd. Mae yn ofyn bod perchenogion yr angorfeydd yn sicrhau fod yr angorfa yn addas ar gyfer y pwrpas. Hefyd mae yn hanfodol fod perchennog pob angorfa yn cadarnhau addasrwydd yr angorfa drwy gyflwyno tystysgrif Angorfa i'r Awdurdod Harbwr cyn bod y cwch yn cael eu hangori yn yr harbwr.

2.5 Mae'r gwasanaeth wedi pwysleisio ar hyn ar sawl achlysur ac wedi derbyn cefnogaeth y Pwyllgor Harbwr i sicrhau fod perchenogion a chontractwyr angorfeydd yn cydymffurfio gyda chyfarwyddyd Is Ddeddfau Harbwr Abermaw. Mae Is ddeddf 5 yn cyfeirio at y gofyn fod tystysgrif addasrwydd angorfa yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Harbwr yn flynyddol.

**3. <u>Cod Morwol Diogelwch Porthladdoedd</u>**

3.1.1 Ym mis Tachwedd 2016 fe fu i'r Adran Drafnidiaeth o'r Llywodraeth gyhoeddi addasiadau i'r Cod Diogelwch Porthladdoedd. Mae copiiau o'r cod newydd wedi ei ddosbarthu i holl Aelodau'r Pwyllgorau Ymgynghorol ac mae copi hefyd ar gael ar safle we Asiantaeth gwylwyr y Glannau (MCA.) Mae'r Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig yn adolygu'r Cod Diogelwch ar gyfer harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd yn rheolaidd er sicrhau fod holl sustemau diogelwch ein harbyrau yn cyd-fynd gyda gofynion y cod a disgwyliadau ein cwsmeriaid a hefyd er cydymffurfio a gofynion Iechyd a Diogelwch.

3.1.2 Mae Adran Trafnidiaeth y Llywodraeth wedi adolygu ac wedi cyhoeddi canllawiau 'Ymarferiadau da Mewn Gweithgareddau Harbyrau' sydd yn gysylltiedig gyda'r Cod Diogelwch Morol ac mae copi o'r ddogfen ar gael i Aelodau ar gyflwyniad cais i'r gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig.

3.1.3 Rhwng y 19eg ac yr 21ain Medi 2017 fe gynhaliwyd arolygiad trylwyr gan archwilwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau o drefniadau a sustemau diogelwch presennol harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd er sicrhau cydymffurfiaeth a'r Cod Diogelwch Porthladdoedd. Barn gychwynnol yr archwilwyr oedd bod y Cyngor yn cyd-fynd gyda'r gofynion yn gyffredinol ond bod angen addasu rhai elfennau sydd yn gysylltiedig â chofnodi dyletswyddau a nodi Deiliwr Dyletswydd. Fe fu i'r archwilwyr ymweld ag harbyrau Aberdyfi, Porthmadog a Phwllheli yn ystod yr archwiliad. Ni fu iddynt ymweld ag Abermaw oherwydd cyfyngiadau mewn amser.

3.1.4 Disgwylir adroddiad ysgrifenedig buan gan yr archwilwyr yn amlinellu'r materion a fydd angen sylw gan y Cyngor. Fe sicrheir bod y Pwyllgorau Ymgynghorol yn derbyn copi o'r adroddiad. Pan fydd adroddiad yr archwilwyr wedi ei dderbyn fe fydd gan y Cyngor gyfnod penodol i addasu trefniadau ac fe fydd Asiantaeth Gwylwyr y Glannau yn ail ymweld â'r gwasanaeth oddi fewn 12 mis o gyflwyno'r adroddiad ble bydd disgwyl bod argymhellion a gyflwynwyd yn yr adroddiad wedi eu gweithredu arnynt.

3.1.5 Yn dilyn trafodaeth gyda'r archwilwyr cytunwyd mewn egwyddor byddai yn fuddiol bod dyddiad yr ail ymweliad yn cyd-fynd a dyddiad Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr. Awgrymwyd i'r archwilwyr byddai yn fuddiol bod yr archwilwyr yn mynychu cyfarfod o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog gan wahodd cynrychiolwyr Pwyllgorau Ymgynghorol Aberdyfi, Abermaw a Pwllheli i'r cyfarfod. Byddai hyn yn galluogi Aelodau i dderbyn gwybodaeth gan yr archwilwyr ynglŷn â phrif faterion y Cod Diogelwch a'r disgwyliad ar y Cyngor i gydymffurfio gyda'r Cod Diogelwch.

3.1.6 Pwysleisir na gyflwynwyd unrhyw rybudd o welliant yn ymwneud a materion diogelwch difrifol neu ddiffygion yn yr harbyrau. Nodwyd ganddynt fod cyfle i wella ar daclusrwydd oddi amgylch cei harbwr Aberdyfi gan fod yna nwyddau a rhaffau wedi eu cadw ar y cei mewn ffordd a allasai achosi risg. Cyflwynwyd sylwadau ar lafar ynglŷn â lled y sianel yn harbwr Pwllheli. Ni chyflwynwyd sylw am faterion Diogelwch yn harbwr Porthmadog.

3.1.7 Er bod y Cod Diogelwch Porthladdoedd yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan y gwasanaeth mae yn anorfod atgoffa Aelodau o'r Pwyllgorau Ymgynghorol o'r ddyletswydd arnynt i gyflwyno sylwadau ar addasrwydd y Cod Diogelwch ac i dderbyn sylwadau ar drefniadau gwaith yr harbyrau fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu er sicrhau bod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, priodoldeb lleoliadau cymhorthion mordwyo, diogelwch cyffredinol a gwaith dydd i ddydd yr harbwr.

3.1.8 Nid oes unrhyw fater neu achos o bryder wedi ei gyflwyno at sylw'r gwasanaeth gan Aelodau o'r Pwyllgor Harbwr yn ystod 2017 sydd yn gysylltiedig â chyfrifoldebau a dyletswyddau statudol yr Harbwr..

**4. <u>Mordwyo</u>**

4.1.1 Cafwyd archwiliad manwl gan archwilwyr Awdurdod Goleudai Tŷ'r Drindod ar yr 2il Awst 2017. Mewn cymhariaeth ac adroddiadau blaenorol roedd adroddiad 2017 yn cadarnhau gwelliant pellach yng nghyflwr a lleoliadau Cymhorthion Mordwyo Harbwr Abermaw. Nodwyd gan yr archwiliwr fod angen cynnal a chadw (gwaith peintio) Cymhorthydd Rhif 6 P0334.) Atodir siart yn arddangos lleoliadau cyfredol y cymhorthion mordwyo.

4.1.2 Mae rhaglen waith cynnal a chadw'r Cymhorthion Mordwyo'r Harbwr wedi ei gwblhau a hyn yn unol â chaniatâd a chyfarwyddwyd ac arweiniad y Pwyllgor Ymgynghorol. Fe fydd diweddariad o'r sefyllfa bresennol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn y cyfarfod.

4.1.3 Yn y man nid oes Rhybudd i Forwyr mewn grym yn harbwr Abermaw. Mae adroddiadau PANAR yn cael eu cyflwyno gan y Gwasanaeth at sylw Tŷ'r Drindod yn chwarterol. Mae'r adroddiad PANAR yn adrodd ar safon cymhorthion mordwyo harbyrau Gwynedd.

4.1.4 Mae yn fwriad cynnal a chadw'r Bwi Tramwyo yn ystod yr wythnosau nesaf er sicrhau fod yn addas ar gyfer ei leoli yn y bae cyn dechrau'r tymor hwylio nesaf.

4.1.5 Cyflwynwyd 1 adroddiad i Fwrdd Archwilio Damweiniau Morol (MAIB) mewn perthynas â digwyddiad yn harbwr Abermaw. Roedd hyn yn adrodd ar unigolyn di brofiad a oedd wedi methu a chadw Rheolaeth ar y cwch wrth fordwyo o'r llithrfa. Fe yrrwyd y cwch ar gyflymdra gweddol uchel gan daro yn erbyn strwythur cyfagos. Yn ffodus ni achoswyd anaf i unigolyn neu ddifrod i unrhyw offer.

4.2 **<u>Cynnal a chadw</u>**

4.2.1 Cyflwynir trefniadau a rhaglen waith ar gyfer cynnal a chadw elfennau allweddol harbwr Abermaw gan yr Harbwr Feistr yn y cyfarfod.

4.2.2 Bydd yr Harbwr Feistr yn cyflwyno rhaglen waith cynnal a chadw a fu i'w gweithredu yn Harbwr Abermaw yn ystod y cyfnod Hydref - Rhagfyr ac yn rhoi amlinell o'r rhaglen waith a fu i'w gweithredu yn y cyfnod Ionawr - Mawrth 2017. Gofynnir am adborth aelodau'r Pwyllgor am unrhyw waith ychwanegol bydd angen ei ystyried a'i gynnwys ar y rhaglen waith.

4.3 **<u>Materion Staff</u>**

4.3.1 Mae cyfnod cyflogaeth Cymhorthydd Harbwr Abermaw (tymhorol) wedi dod i ben ers y 30ain Medi 2017. Er sicrhau cefnogaeth a pharhad i'r gwasanaeth ar draws y sir mae'r gwasanaeth yn ymestyn cyfnod cyflogaeth Cymhorthion Harbwr Abermaw, Aberdyfi a Porthmadog hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2017. Fe fydd unrhyw gyfnod cyflogedig estynedig pellach yn ddibynnol ar raglen waith yr harbwr ac wrth gwrs yn ddibynnol ar sefyllfa cyllid yr harbwr. 2017/18.

4.3.2 Fe fydd y tri chymhorthydd harbwr yn rhan o'r tîm ehangach y gwasanaeth ac fe fydd ymestyn y cyfnod cyflogaeth yn sicrhau bydd yn bosibl ymateb i ddigwyddiadau arfordirol a chynorthwyo gyda thargedau rhaglen waith cynnal a chadw harbyrau Abermaw, Aberdyfi, a

Phorthmadog dros fisoedd y gaeaf. Yn anffodus, oherwydd risg gweithio yn unig ni allai'r gwasanaeth gynnal gwasanaeth saith diwrnod yr wythnos dros gyfnod yr hydref a'r gaeaf. Fe fydd staff yn bresennol yn ystod y digwyddiad 'Motor Cross' ar ddiwedd mis Hydref.

4.4 **Materion Harbwr**

4.4.1 **Rhwystr Diogelwch Ardal Y Cei** - Ar ddechrau tymor yr haf fe fu i'r gwasanaeth adnabod risg uchel yn ardal y cei. Roedd y risg yn cael effaith ar gerddwyr gan fod cerbydau yn gallu dreifio a pharcio heb awdurdod yn ardal y cei. Er bod yna folardiau pwrpasol wedi eu lleoli ar y safle nid oedd y bolardiau yn effeithiol gan roedd yn bosibl eu tynnu allan o'r socedi a'u gadael ar ochr adeilad cyfagos.

4.4.2 Yn dilyn asesiad o'r opsiynau i leihau risg fe fu i'r gwasanaeth adnabod y byddai gosod rhwystr pwrpasol ar y safle yn lleihau risg i'r cyhoedd yn sylweddol. Fe osodwyd y rhwystr gan staff yr harbwr.

4.4.3 Ers gosod y rhwystr mae staff yr harbwr wedi bod yn monitro'r safle er adnabod effeithiolrwydd y rhwystr. Adborth y gwasanaeth yw bod y rhwystr wedi gwella diogelwch yn yr ardal. Er bod y rhwystr wedi achosi ychydig anhawster i ddefnyddwyr masnachol mae'r lleihad yn y risg yn damsang unrhyw anghyfleustra mynediad ac fe fawr obeithiwn bydd y defnyddwyr masnachol yn adnabod gwelliant y diogelwch.

4.4.4 Cytunwyd byddai'r rhwystr yn cael ei osod gydag amod bod y gwasanaeth yn derbyn barn y Pwyllgor Harbwr ar effeithiolrwydd y rhwystr.

4.4.5 **Pontŵn -** Cyfeiriwn at gyfarfod a gynhaliwyd ar y 1af Chwefror 2017 er trafod perchenogaeth cyfrifoldebau, trefn cynnal a chadw a rheolaeth pontŵn ar y cei. Roedd cynrychiolaeth grwpiau a mudiadau lleol, Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Tref yn y cyfarfod.

4.4.6 Prif gasgliad y cyfarfod oedd y byddai'r cynrychiolwyr a oedd yn bresennol yn trafod ac yn ystyried trosglwyddo 'perchenogaeth' y pontŵn i grŵp neu fudiad lleol . Mae'r Cyngor wedi derbyn gohebiaeth gan Ymddiriedolaeth Cymuned Abermaw yn datgan diddordeb yn y pontŵn ac fe fawr obeithir bydd y grŵp gyda'r capasisiti i sicrhau dyfodol y pontŵn yn Abermaw. Byddai rhaid i unrhyw drosglwyddiad dderbyn caniatâd y perchenogion presennol.

4.4.7 Cadarnheir na fod y pontŵn ym mherchenogaeth y Cyngor ac felly nid yw'r Cyngor mewn unrhyw sefyllfa i barhau i gynnal a chadw a rheoli'r pontŵn at y dyfodol.

4.4.8 **Pwynt Penrhyn –** Mae'r gwasanaeth yn cydweithio gyda Chyngor Cymuned Arthog er ceisio gwella Rheolaeth yn ardal y llithrfa ym Mhwynt Penrhyn. Mae giât ddiogelwch wedi eu gosod ar y safle ac mae arwyddion newydd wedi eu dylunio ac wedi eu harchebu. Mae'r giât wedi bod yn rhannol effeithiol ac fe fydd gwelliannau pellach yn cael eu trafod gyda'r Cyngor Cymuned yn ystod misoedd y gaeaf. Yn anffodus cafodd nifer arwyddion a fydd yn cyfeirio at waharddiad parcio dros nos eu fandaleiddio yn ystod tymor yr haf.

4.4.9 **Arwyddion Diogelwch -** Cadarnheir bod y Gwasanaeth yn parhau i gydweithio gyda Sefydliad y Bad Achub er gwella arwyddion diogelwch ardal yr Harbwr a thraeth Abermaw.

4.4.10 Mae'r Gwasanaeth wedi ymateb i ganlyniad yr archwiliad ac wedi cadarnhau dyluniad yr arwyddion a'u prif leoliadau gyda Sefydliad y Bad Achub. Roedd yn fwriad cynhyrchu a gosod yr arwyddion ar eu safle priodol yn ystod tymor yr haf ond yn anffodus oherwydd anawsterau technegol nid oedd yn bosibl cwblhau'r gwaith.

4.4.11 Pwysleisir na fod yr oedi yn fater a allasai fod wedi ei adnabod blaen llaw. Hyderwn bydd yr arwyddion newydd yn cyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd ar arfordir Gwynedd.

4.4.12 **Diogelwch Parcio** - Mae'r gwasanaeth wedi cynnal asesiad risg priodol er adnabod a lleihau unrhyw risg yn ymwneud a gyrru a pharcio cerbydau ar diroedd sydd yng nghyffiniau swyddfa'r Harbwr Feistr.

Yn dilyn yr asesiadd mae'r gwasaaneth wedi cyflwyno trefn newydd sydd yn gwahardd rhai heb awdurdod a heb ganiatâd i barcio ar y llecyn sydd yn rhedeg cyfochrog a compownd yr harbwr. Ymhellach i hyn mae camau priodol wedi eu cymryd er gwarchod yr ychydig lecynnau parcio sydd ar gael ger y rhwystr sydd yn arwain at y compownd.

## 5. Materion Ariannol

5.1 Mae crynodeb o gyllidebau'r Harbwr yn adrodd ar sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd cyfnod Chwarter 2 2017/18 ac adroddiad cyllideb at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2016/17 wedi ei atodi.

5.2 Yn ystod y cyfnod, bu'n ofynnol i ymrwymo adnodd cyllid ar gyfer y canlynol: -

- Cynnal a chadw Cymhorthion Mordwyo a Llusernau
- Cynnal a chadw angorfeydd y Cyngor.
- Ymestyn cyfnod cyflogaeth staff
- Llinellau a bolardiau safleoedd parcio
- Rhwystr Diogelwch
- Gwaredu Flachiau (Flares/TEP's)

5.3 **Ffioedd a Thaliadau 2017/18**. Atodir taenlen ffioedd arfaethedig Harbwr Abermaw a ffioedd lansio cychod a Badau Dwr Personol ar gyfer 2018. Rhagwelir bydd chwyddiant Harbyrau ar gyfer 2018/19 yn 1.78%. Er cwrdd â her cyllideb a tharged incwm y gwasanaeth argymhellir fod ffioedd Harbwr Abermaw yn cynyddu 2% ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19.

5.4 Pwysleisir mai drafft yn unig sydd wedi ei gyflwyno ger bron Aelodau ac mae'r ffioedd yn ddarostyngedig ar dderbyn cadarnhad gan yr Arweinydd Portffolio yn fuan yn 2018 cyn eu cyhoeddi a dosbarthu i'r cwsmeriaid.

5.5 Mae cynnydd chwyddiant 2018/19 fel a ganlyn: -

| | | |
|---|---|---|
| 5.5.1 | Traethau | - 3.1% |
| 5.5.2 | Hafan | - 1.73% |
| 5.5.3 | Harbyrau | - 1.78% |
| 5.5.4 | Doc Fictoria | - 1.45% |
| 5.5.5 | Parc Padarn | - 3.25% |
| 5.5.6 | Parc Glynllifon | - 3.0% |

## 6. Digwyddiadau

6.1 Cynhaliwyd y canlynol yn ardal Harbwr Abermaw yn ystod 2017: -

- Digwyddiad mawreddog Ras y Tri Phigyn
- Digwyddiad 'Motor Cross' traeth Abermaw
- Dathliad 'Pont y Rheilffordd'
- Gŵyl Canŵio'r 'Mawddach Paddlefest'
- Gŵyl Hedfan Barcud - Traeth Abermaw
- Cystadleuaeth Nofio Pellter
- Dathliadau Tan Gwyllt Abermaw